| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Medi 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cyng. David Smith, Parth y Cyhoedd**<br>**Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Claire MacFarlane, Swyddog Cynllunio** |
| **Teitl:** | **Canllaw Cynllunio Atodol: ‘Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol’ – Drafft ymgynghori** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar gynllunio ar gyfer diogelwch cymunedol, a fydd os caiff ei mabwysiadu, yn cael ei defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1. Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych, mae angen CCA ar ddiogelwch cymunedol er mwyn cynnig arweiniad pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae CCA drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ynghlwm wrth yr adroddiad hwn (Atodiad 1).

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n cytuno ar y CCA drafft ar gynllunio ar gyfer diogelwch cymunedol fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r CCA yn ategu at bolisi RD1 y CDLl 'Datblygu cynaliadwy a dyluniad o ansawdd da' drwy ddarparu canllawiau pellach ar sut y gall cynllun a dyluniad y datblygiadau ystyried diogelwch unigol a chymunedol.

4.2. Bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn isafswm o 8 wythnos a disgwylir y bydd yn dechrau ym mis Hydref 2016. Disgwylir y bydd canlyniadau’r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i Grŵp Llywio Aelodau’r CDLl ym mis Rhagfyr 2016, ac yna cyflwyno CCA terfynol i'r Pwyllgor Cynllunio i'w fabwysiadu ym mis Ionawr 2017. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw’r CCA yn cyfrannu’n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol ond bydd sicrhau datblygiad amgylcheddau diogel a deniadol, yn cyfrannu'n anuniongyrchol at wella’r parth cyhoeddus, yr economi leol a darparu tai o ansawdd da.

**6. Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Ni ragwelir y bydd cytuno ar y CCA ar gyfer ymgynghori yn creu unrhyw gost ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Mae ymarfer sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn dod i'r casgliad nad oes angen AEG (llawn). Mae’r templed AEG wedi’i lenwi wedi’i atodi yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd yn fewnol gyda'r Tîm Rheoli Datblygu. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol gyda Heddlu Gogledd Cymru. Mae mewnbwn Aelodau ar gynnwys y CCA hefyd wedi cael ei ddarparu trwy Grŵp Llywio Aelodau’r CDLl.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb ganllawiau manwl mae risg na fydd y Cyngor yn gallu gweithredu polisïau’r CDLl yn effeithiol o ran sicrhau bod datblygiadau’n cael eu dylunio i ystyried diogelwch cymunedol ac atal trosedd.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).